EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

COFNODION CHWECHED CYFARFOD AR HUGAIN
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

DYDDIAD: 17 Tachwedd 2022

LLEOLIAD: Swyddfeydd CGA, 10fed Llawr, Eastgate House, 35 – 43 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0AB

Yn bresennol:
Aelodau:

Angela Jardine	Sue Walker
David Williams	Berni Tyler
Rosemary Lait	Jane Setchfield
Gwawr Taylor	Kelly Edwards
Kevin Pascoe	Nicola Stubbins
Steve Drowley	

Ymddiheuriadau:
Eithne Hughes
Clare Jones
Anne Pitman

Swyddogion:

Hayden Llewellyn	Prif Weithredwr
Elizabeth Brimble	Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer
Bethan Stacey	Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi
Lisa Winstone	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Beverley Curtis	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol *(cofnodion)*
Mark Phipps	Rheolwr Cymwysterau a Chofrestru *(yn arsylwi)*
Llinos Huws	Swyddog Gweithredol Uwch, Datblygiad Proffesiynol a Chyllid *(yn arsylwi)*
Ellie Hutchinson	Swyddog Cymorth Corfforaethol *(yn arsylwi)*

1. Croeso a materion rhagarweiniol

1.1 Croesawodd Angela Jardine, (*Cadeirydd*), aelodau a swyddogion i chweched cyfarfod ar hugain Cyngor y Gweithlu Addysgu (CGA).

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Eithne Hughes, Clare Jones ac Anne Pitman.

<u>Briff gan Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg</u>

- Ymunodd y Gweinidog â'r cyfarfod trwy Microsoft Teams, gyda Claire Horton *(Pennaeth y Gangen Deddfwriaeth a Llywodraethiant, Llywodraeth Cymru).* Anerchodd y Gweinidog y

Cyngor gan roi briff ar y tirlun addysgol presennol yng Nghymru ac atebodd nifer o gwestiynau gan aelodau.

2. Datganiadau o Fuddiant

2.1 Datganodd Kelly Edwards fuddiant parhaus yn eitemau agenda CGA 45/22 a CGA 52/22 fel un o gyflogeion Colegau Cymru.

2.2 Datganodd Steve Drowley fuddiant parhaus yn eitem agenda CGA 51/22 fel Cadeirydd ETS.

2.3 Ni chafwyd rhagor o ddatganiadau o fuddiant.

3. Gohebiaeth ac Adroddiad y Cadeirydd

3.1 Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i aelodau ar broses Llywodraeth Cymru o benodi wyth aelod newydd o'r Cyngor ar ôl i dymor y Cyngor presennol ddod i ben ar 31 Mawrth 2023. Atgoffodd hi'r Cyngor fod chwech o'r aelodau sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd wedi'u hailbenodi am dymor arall, yn dilyn mynegiannau o ddiddordeb yng nghyfarfodydd adolygu blynyddol yr aelodau a chymeradwyaeth ddilynol y Gweinidog. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am yr wyth lle yn weddill oedd 9 Tachwedd 2022 a byddai'r panel yn llunio rhestr fer ar 29 Tachwedd 2022. Rhoddodd wybod i'r Cyngor fod y panel dewis yn ei chynnwys hi, Claire Horton (*Llywodraeth Cymru*) a David Pritchard (*Cyfarwyddwr Rheoleiddio, Gofal Cymdeithasol Cymru*).

3.2 Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod cyfarfod blynyddol y 'Pedair Gwlad' wedi'i gynnal ar 6 a 7 Hydref 2022, pan gyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a'u cymheiriaid o Gynghorau Addysgu yn y DU ac Iwerddon. Yn sgil cyflwyno'r ddeddfwriaeth ar gyfer dirymu Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon, cynhaliwyd ymgynghoriad â'r cyhoedd ynghylch swyddogaethau a dyfodol y corff ac edrychodd yr ymgynghoriad ar fodelau gweithredu cyrff rheoleiddio eraill, gan gynnwys CGA. Dywedodd fod adroddiad yr ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi a'i fod ar gael i'r cyhoedd. Rhoddwyd gwybod bod Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban a Chyngor Addysgu Iwerddon yn destun adolygiadau, gyda chyfleoedd am ddatblygu a swyddogaethau ychwanegol.

3.3 Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu Seremoni Wobrwyo Gwobrau STEM Cymru ar 27 Hydref 2022, a'i bod wedi cyflwyno gwobr a noddwyd gan Addysgwyr Cymru. Nododd lwyddiant y digwyddiad o ran hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol o fewn y gymuned ehangach a'r rhwydwaith addysg.

3.4 Atgoffwyd aelodau am nifer o ddigwyddiadau CGA a oedd ar ddod ac fe'u hanogwyd i fod yn bresennol, lle bynnag y bo'n bosibl. Byddai'r digwyddiad nesaf yn cael ei gynnal ar y cyd â BAMEed Cymru ac Addysgwyr Cymru ar 24 Tachwedd 2022 ar bwnc symud o ymarfer nad yw'n hiliol i ymarfer gwrth-hiliol.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 7 Gorffennaf 2022

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 7 Gorffennaf 2022. Roedd yr aelodau'n fodlon cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.

4.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. Cael hysbysiad am unrhyw faterion y mae aelodau eisiau eu codi mewn perthynas â'r eitemau 'er gwybodaeth' ar yr agenda

5.1 Ni chafwyd hysbysiad am unrhyw faterion.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 20 Medi 2022

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr gofnodion y Pwyllgor Gweithredol a dywedodd nad oedd unrhyw faterion yn codi i dynnu sylw'r aelodau atynt, na fyddent yn cael sylw yn nes ymlaen ar yr agenda.

6.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 20 Medi 2022

7.1 Cyflwynodd Steve Drowley, Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio, y cofnodion a dywedodd nad oedd unrhyw faterion yn codi i dynnu sylw'r aelodau atynt, na fyddent yn cael sylw yn nes ymlaen ar yr agenda.

7.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar 22 Medi 2022

8.1 Yn absenoldeb Clare Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu, cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion a dywedodd nad oedd unrhyw faterion yn codi i dynnu sylw'r aelodau atynt, na fyddent yn cael sylw yn nes ymlaen ar yr agenda.

8.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

9. Adroddiad gan y Prif Weithredwr CGA 42/22

9.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Cyngor ar amrywiaeth o faterion nad ydynt yn cael sylw rywle arall ar yr agenda, a gwahoddodd sylwadau ac ymholiadau'r aelodau.

9.2 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff chwech, rhoddodd wybod am gynrychiolaeth CGA ar nifer o grwpiau newydd eu sefydlu ers cyfarfod diwethaf y Cyngor, yn cwmpasu pob un o'r saith grŵp o gofrestreion.

9.3 Yn sgil cymeradwyaeth gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2022, cytunwyd y byddai swyddogion CGA yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar fireinio papur safle CGA ar gyflenwi cyn ei gyhoeddi. Roedd y trafodaethau'n parhau.

9.4 Yn sgil ymholiad gan aelod ynghylch beth roedd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y cyfeiriwyd ato ym mharagraff naw, yn ei olygu, ymatebodd y Prif Weithredwr gan ddweud mai megis dechrau yr oedd y gwaith ac y byddai aelodau'n cael diweddariad yn briodol ar ôl

sefydlu'r Grŵp Cymorth a Her ac ar ôl iddo gyfarfod, ac y byddai CGA yn cael ei gynrychioli yn y grŵp hwn.

9.5 Ac yntau'n ymateb i gais aelod am ddiweddariad ynghylch cyfarfod cyntaf y Grŵp Gweithredu Allanol ar y Gymraeg yr adroddwyd amdano ym mharagraff 10, dywedodd y Prif Weithredwr fod gweledigaeth uchelgeisiol wedi'i chyfleu i'r grŵp ac y byddai'n gofyn am gydweithredu ar draws yr holl sefydliadau sy'n gysylltiedig.

9.6 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 19, roedd gweithgor newydd wedi'i sefydlu ar gofrestru'r gweithlu Gofal Plant a Chwarae yn broffesiynol. Cynhaliwyd y trydydd cyfarfod ar 14 Tachwedd 2022, a bu'r Prif Weithredwr a Liz Brimble (*Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer*) yn bresennol. Megis dechrau oedd y trafodaethau a byddai aelodau'n parhau i gael diweddariadau ar ddatblygiadau.

9.7 Gan gyfeirio aelodau at baragraff 27, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai cynhadledd nesaf IFTRA (Fforwm Rhyngwladol Awdurdodau Rheoleiddio Addysgu) yn cael ei chynnal gan Goleg Athrawon Queensland ar ran Awdurdodau Rheoleiddio Athrawon Awstralia ym Mai / Mehefin 2024. Byddai'r gynhadledd ddilynol yn 2026 yn cael ei chynnal yn Ne Affrica dan arweiniad Ffederasiwn Awdurdodau Rheoleiddio Addysgu Affrica (AFTRA).

9.8 Atgoffodd y Prif Weithredwr aelodau am ddigwyddiadau CGA sydd ar ddod, a restrir ym mharagraff 29. Yn benodol, amlygodd y byddai Michael Fullen yn siarad yn narlith flynyddol 'Siarad yn Broffesiynol' y Cyngor ac anogodd aelodau i fod yn bresennol.

9.9 Nid oedd gan aelodau unrhyw gwestiynau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad.

10. Adolygiad chwarterol 1 Gorffennaf – 30 Medi 2022 CGA 43/22

10.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn a oedd yn adolygu'r cynnydd yn erbyn y targedau a'r dangosyddion perfformiad yng Nghynllun Gweithredol a chynlluniau a strategaethau cysylltiedig eraill y Cyngor. Nododd y cynnydd a wnaed yn ystod ail chwarter y flwyddyn ariannol a dywedodd fod CGA wedi llwyddo i fodloni'r amcanion fel y'u hamlinellwyd yn yr adolygiad.

10.2 Mewn ymateb i ymholiad aelod am swyddi gwag o fewn y sefydliad, dywedodd Lisa Winstone (*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol*) y bu nifer o symudiadau ymhlith y staff yn fewnol, a arweiniodd at fwy o swyddi gwag. Nododd hefyd, yn sgil trafodaethau â chydweithwyr rhwydwaith, fod y cynnydd mewn recriwtio yn nodweddiadol o'r hinsawdd bresennol ac yn debyg ar draws llawer o sefydliadau.

10.3 Gan ymateb i awgrym aelod ynghylch rhoi system goleuadau traffig ar waith i adlewyrchu'r cynnydd yn erbyn amcanion y Cyngor, dywedodd y Prif Weithredwr fod hyn wedi'i drafod yn flaenorol a chytunwyd bod dulliau mwy priodol o adrodd ar berfformiad. Nododd yn arbennig ei bod hi'n bwysig bod swyddogion yn rhoi gwybod i'r Cyngor am oedi i unrhyw amcanion / gweithredoedd.

10.4 Ni ofynnodd y Cyngor unrhyw gwestiynau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adolygiad.

11. Adolygiad ariannol chwe mis **CGA 44/22**

11.1 Cyflwynodd Lisa Winstone y papur hwn a oedd yn adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor wedi chwe mis o'r flwyddyn ariannol.

11.2 Nododd fod yr adolygiad yn dangos gwarged diwedd blwyddyn o £2,269,711. Fodd bynnag atgoffwyd aelodau fod y rhagolwg hwn yn gamarweiniol gan fod y cyfrifon yn dangos incwm blwyddyn lawn yn erbyn gwariant hanner blwyddyn. Cyfeiriodd hi'r aelodau at y dadansoddiad manwl ym mharagraff tri.

11.3 Fel yr adroddwyd ym mharagraff pedwar, wrth gyrraedd chwe mis, yr alldro a ragwelwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 oedd diffyg o £53,230. Dywedodd fod hyn yn is na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer yn wreiddiol yn bennaf oherwydd cynnydd yn y refeniw o incwm ffioedd cofrestru, sef tua £235,000. Yn hanesyddol, roedd swyddogion wedi cyllidebu'r refeniw hwn yn ddarbodus, ond buont yn arbennig o ofalus wrth ddrafftio'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn adrodd hon o ystyried effaith barhaus anhysbys Covid ar y gweithlu addysg.

11.4 Gan gyfeirio aelodau at baragraffau 8-9, adroddodd Lisa Winstone am orwariant amcangyfrifedig o £20,119 mewn costau staff. Prif faes y gorwariant oedd ar gostau recriwtio, y rhagwelwyd y byddai gorwariant o £12,875 yn ei gylch. Roedd nifer o swyddi gwag wedi gofyn am ddefnyddio asiantaethau recriwtio i lenwi'r swydd, gan arwain at orfod talu ffioedd lleoli.

11.5 Roedd y gyfran fwyaf o gostau uniongyrchol yn gysylltiedig yn benodol â'r swyddogaeth Priodoldeb i Ymarfer, fel yr adroddwyd ym mharagraffau 11-15. Ar hyn o bryd, roedd cyfanswm o 61 gwrandawiad wedi'u rhestru i'w cwblhau erbyn diwedd Mawrth, o gymharu â chyllideb ar gyfer 65 gwrandawiad. Ar y cyfan, roedd yr all-dro a ragwelwyd wedi nodi tanwariant posibl o £114,258 yn erbyn y gyllideb ar gyfer cyfanswm y costau uniongyrchol.

11.6 Atgoffwyd aelodau am weddillion y cronfeydd wrth gefn dynodedig yr adroddwyd amdanynt ym mharagraff 20 a chadarnhaodd Lisa Winstone na fwriadwyd gwneud unrhyw newidiadau i ddiwygio gweddillion y cronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd.

11.7 Gan ymateb i ymholiad aelod am ddefnyddio'r ystafelloedd cyfarfod ar lawr 10 Eastgate House o ystyried bod gwrandawiadau'n digwydd yn rhithwir, cadarnhaodd Lisa Winstone fod prydles y Cyngor ar gyfer dau lawr yr adeilad yn para tan 2028. Byddai swyddogion yn ystyried y sefyllfa pan ddeuai i ben.

11.8 O ystyried ansicrwydd presennol yr hinsawdd ariannol, holodd un aelod am y risg sy'n gysylltiedig â gwaith a wna'r Cyngor ar ran Llywodraeth Cymru sy'n dibynnu ar gyllid grant. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad oedd Llywodraeth Cymru wedi mynegi unrhyw bryderon am hyn ac atgoffodd aelodau fod llythyr y Cynnig Grant yn cael ei lofnodi a'i gytuno yn flynyddol ac, felly, roedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan gyfrif am y tirlun ariannol cyfan.

11.9 Gan gyfeirio at nifer cynyddol y cofrestreion, holodd un aelod am y risg bosibl na fyddai'r Cyngor yn gallu cyflawni ei holl amcanion yn ariannol gan nad oedd y cymhorthdal cofrestru gan Lywodraeth Cymru wedi cynyddu. Atebodd y Prif Weithredwr fod swyddogion yn parhau i gyllidebu'n ofalus i sicrhau bod yr holl amcanion yn cael eu bodloni, fel y mae'r Adolygiadau Chwarterol i'r Cyngor yn ei ddangos.

11.10 Cadarnhaodd Lisa Winstone y byddai'r adolygiad ariannol nesaf adeg mis wyth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2023. Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

12. Adroddiad cynnydd SAC, Cofrestru a Sefydlu CGA 45/22

12.1 Cyflwynodd Liz Brimble yr adroddiad cynnydd hwn, a oedd yn rhoi diweddariad i aelodau ar waith CGA yn gysylltiedig â Chofrestru a gweinyddu'r gwaith o ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC) a Sefydlu.

12.2 Adroddwyd fod dros 85,000 o ymarferwyr wedi cofrestru, sef y nifer uchaf o gofrestreion a gofnodwyd hyd yn hyn. Roedd rhwng 50 a 60 o geisiadau i gofrestru yn parhau i gyrraedd yn ddyddiol ac roedd y cynnydd mwyaf yn y niferoedd i'w weld yng nghategori'r sector cymorth dysgu mewn ysgolion, gyda thros 4,400 o yn fwy o gofrestreion unigol nag yn yr un cyfnod y llynedd.

12.3 Atgoffwyd aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gategorïau cofrestru newydd ar gyfer CGA. Fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 7-10, penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen â dau gynnig yr ymgynghorwyd arnynt. Roedd CGA wedi codi ei bryderon am ddiogelu a byddai'n codi'r mater ymhellach gyda'r Gweinidog pe bai angen. Roedd swyddogion wedi cael gwybod y byddai'r diwygiadau i'r ddeddfwriaeth ar yr anghysondebau eraill yn dod i rym yng ngwanwyn 2023, yn amodol ar yr ymgynghoriad.

12.4 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 12 ac atodiad B, rhoddodd Liz Brimble wybod am nifer y prosiectau data ac adrodd y mae CGA yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd. Fel diweddariad i'r papur, nododd fod cytundeb wedi bod ar ddyddiad lansio arolwg y gweithlu sector Addysg Bellach, sef canol Ionawr 2023.

12.5 Gofynnodd aelodau nifer o gwestiynau yn ceisio eglurhad ynghylch y data y cyfeirir ato yn atodiad B. Roedd y Cyngor yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

13. Adroddiad cynnydd Priodoldeb i Ymarfer CGA 46/22

13.1 Cyflwynodd Liz Brimble yr adroddiad cynnydd hwn ar waith Priodoldeb i Ymarfer y Cyngor a materion gweithdrefnol cysylltiedig.

13.2 Fel yr adroddwyd ym mharagraff wyth, roedd y Cyngor wedi penderfynu cynnal pob gwrandawiad yn rhithwir oni bai bod cofrestreion yn gofyn yn wahanol. Dywedodd fod gwrandawiad wyneb yn wyneb wedi'i drefnu ar gyfer Rhagfyr 2022 ac y byddai'n cael ei gynnal yn yr ystafelloedd gwrandawiadau ar 10fed llawr Eastgate House.

13.3 Fel diweddariad i baragraff 11, cadarnhaodd Liz Brimble fod Pwyllgor Priodoldeb wedi cyfarfod, yn dilyn gohiriad blaenorol, ac wedi gwrthod cais i gofrestru.

13.4 Rhoddwyd gwybod i aelodau fod swyddogion yn parhau i gyflwyno nifer uchel o sesiynau hyfforddiant a chyflwyniadau yr oedd rhanddeiliaid yn gofyn amdanynt. Fel y dywedwyd ym mharagraff 20, cwblhawyd 28 o sesiynau ers 1 Ebrill 2022 ac roedd 11 arall wedi'u trefnu, ac roedd ymholiadau a cheisiadau ychwanegol yn parhau i gyrraedd. Mewn ymateb i ymholiad aelod am greu fideos / gweminarau fel deunyddiau hyfforddiant i staff a llywodraethwyr, dywedodd Liz Brimble fod Tîm Cyfathrebu'r Cyngor yn gweithio'n agos gydag uwch swyddogion ar greu cyfres o ddeunyddiau at y diben hwn.

13.5 Nododd Liz Brimble fod y sesiynau diweddaru blynyddol i randdeiliaid wedi'u trefnu ar gyfer Tachwedd – Rhagfyr 2022 fel y dywedwyd ym mharagraff 21. Roedd y cyfarfodydd hyn yn ymgysylltu ag arweinwyr cyflogwyr ym mhob un o'r grwpiau cofrestreion, ynghyd â'r asiantaethau cyflenwi preifat.

13.6 Cadarnhaodd Liz Brimble, mewn ymateb i ymholiadau am y gwahaniaeth yn nifer yr atgyfeiriadau gan awdurdodau lleol a chyrff colegau, fod swyddogion yn parhau i ymgysylltu ag arweinwyr Adnoddau Dynol, llywodraeth leol, cyrff llywodraethu ac ADEW i amlygu dyletswydd pob awdurdod lleol dan ddeddfwriaeth i atgyfeirio achosion i CGA.

13.7 Nododd un aelod y tri Gorchymyn Atal Dros Dro Interim a gyflwynwyd ers 1 Ebrill 2022, fel yr adroddwyd ym mharagraff chwech, a holodd a oedd gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer y Gorchmynion wedi gweithio'n effeithlon o ystyried bod pŵer CGA yn y maes hwn yn eithaf newydd. Cadarnhaodd Liz Brimble fod y prosesau sydd wedi'u rhoi ar waith i ddelio ag achosion o'r fath yn gadarn ac roeddent wedi bod yn effeithiol wrth weithredu'r Gorchmynion hyd yn hyn.

13.8 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

14. Canllaw ymarfer da drafft CGA – Iechyd Meddwl a Lles Meddyliol CGA 47/22

14.1 Cyflwynodd Bethan Stacey *(Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi)* y canllaw ymarfer da drafft diweddaraf i ategu'r dewis o ganllawiau presennol a gyhoeddwyd eisoes i gynorthwyo cofrestreion â chadw at y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol. Cyflwynwyd y drafft yn flaenorol i'r Pwyllgor Gweithredol am sylw ac fe'i cyflwynwyd nawr i'r Cyngor ei gymeradwyo.

14.2 Nododd yr ymchwil helaeth a wnaeth swyddogion i ddatblygu'r canllaw, fel yr amlinellir ym mharagraffau 3-4. Roedd sgyrsiau â chydweithwyr yn elusen Education Support (ES), a oedd wedi cytuno i gymeradwyo'r canllaw fel dogfen ar y cyd rhwng CGA / ES, ac adborth ganddynt, wedi llywio'r drafft hefyd.

14.3 Ar y cyfan, roedd aelodau'n gadarnhaol am y drafft a gwnaethant rai awgrymiadau i gynnwys cyfeiriadau perthnasol pellach, ynghyd â newid y dôn / iaith mewn ambell fan, fel bod y canllaw'n fwy addasadwy i amgylchedd gweithle addysg.

14.4 Yn sgil ymgorffori'r awgrymiadau a wnaed yn y drafft, roedd y Cyngor yn fodlon cymeradwyo'r canllaw i'w gyhoeddi.

15. Hyrwyddo gyrfaoedd mewn addysg CGA 48/22

15.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a chyfeiriodd aelodau at baragraff tri. Dywedodd fod y 'System Olrhain Cais' newydd, a ddatblygwyd o fewn gwefan Addysgwyr Cymru i olrhain llwybrau gyrfa unigolion, yn fyw. Y gobaith oedd y byddai'r system, pan fyddai wedi gwreiddio, yn cynhyrchu data allweddol i hysbysu recriwtio a chadw ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru ymhellach.

15.2 Fel y dywedwyd ym mharagraffau 2 a 22, yn dilyn ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru a'r sector Addysg Uwch (AU), nid oedd angen unrhyw weithredu pellach gan swyddogion CGA

gan fod cynlluniau i ymgorffori cynnwys a nodweddion AU ym mhorth Addysgwyr Cymru wedi'u dileu'n ffurfiol.

15.3 Gan gyfeirio at baragraff pedwar, dywedwyd bod swyddogion yn gweithio ar hyn o bryd gyda phedwar Awdurdod Lleol i ddatblygu a pheilota meddalwedd newydd a fyddai'n copïo unrhyw swyddi addysg gwag o'u gwefan i wefan Addysgwyr Cymru yn awtomatig. Yn dibynnu ar lwyddiant y peilot, byddai swyddogion yn ystyried goblygiadau cyflwyno'r feddalwedd i gyflogwyr eraill, gan gynnwys pob awdurdod lleol yng Nghymru.

15.4 Nododd aelodau fod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud ar adeiladu'r defnydd ar wefan Addysgwyr Cymru a gyrru traffig ati wrth i swyddogion fynychu nifer sylweddol o ddigwyddiadau, a thrwy'r gwasanaeth eiriolaeth. Yn benodol, amlygwyd yr ymgysylltu ffocysedig sy'n mynd rhagddo gyda thri grŵp recriwtio blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, sef STEM, y Gymraeg a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

15.5 Roedd y Cyngor yn fodlon nodi'r cynnydd a amlinellwyd yn yr adroddiad.

16. Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon CGA 49/22

16.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn, a roddodd adroddiad cynnydd i aelodau ar rôl statudol y Cyngor i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru.

16.2 Fel yr amlinellir ym mharagraff tri, roedd CaBan Bangor wedi cyflwyno rhaglen AGA newydd ar gyfer TAR ADY i'w hachredu. Gwrthodwyd achredu'r rhaglen, gyda'r rhesymau llawn wedi'u rhoi yn adroddiad y penderfyniad.

16.3 Fel y dywedwyd ym mharagraff saith, roedd y broses fonitro interim wedi dechrau. O ganlyniad i ymweliad monitro, ystyriwyd nad oedd rhaglen Partneriaeth Aberystwyth yn cydymffurfio â'r Meini Prawf ac roedd yn ofynnol i'r Bartneriaeth gyflwyno cynllun gweithredu i fynd i'r afael â hyn. Cymeradwywyd y cynllun gweithredu yn ddiweddarach a byddai ymweliad pellach i bennu'r deilliannau yn gysylltiedig â'r newidiadau a nodwyd yn digwydd yn ystod 2022-23. Cytunwyd ar ymweliadau monitro interim pellach â dwy Bartneriaeth arall ar gyfer Tachwedd / Rhagfyr 2022.

16.4 Gan gyfeirio aelodau at baragraff 11, dywedodd Bethan Stacey y byddai Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad o'r Meini Prawf ac yn eu hadnewyddu. Nododd na fyddai newid i weledigaeth sylfaenol y Meini Prawf ond, yn hytrach, y byddai'n canolbwyntio ar newidiadau technegol i wella'u cymhwyso ac i ymgorffori blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru.

16.5 Mewn ymateb i ymholiad aelod am dargedau recriwtio Llywodraeth Cymru, cadarnhaodd Bethan Stacey fod swyddogion yn parhau i drafod y mater gyda swyddogion a Phartneriaethau.

16.6 Nid oedd gan aelodau unrhyw gwestiynau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

17. Adroddiad cynnydd Ariannu Sefydlu CGA 50/22

17.1 Cyflwynodd Bethan Stacey yr adroddiad a gwahoddodd aelodau i nodi'r cynnydd yng ngwaith y Cyngor ar weinyddu'r trefniadau ariannu, olrhain a chofnodi ar gyfer Sefydlu athrawon ysgol.

17.2 Cyfeiriwyd aelodau at baragraffau 3 a 4, a roddodd nifer y ffurflenni hysbysu a broseswyd ar gyfer ANG a oedd yn dechrau Sefydlu ym mis Medi 2022. Nododd Bethan Stacey fod 325 yn llai o ANG yn ymgymryd â Sefydlu trwy gyfnod cyflogaeth hysbys mewn ysgol a bod 132 yn fwy o ANG yn cwblhau'u Sefydlu trwy waith cyflenwi tymor byr o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

17.3 Gan gyfeirio aelodau at baragraffau 18 – 22, atgoffwyd y Cyngor fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o'r rhaglen sefydlu a strwythur sefydlu. Yn sgil cyhoeddi adroddiad yr ymgynghoriad ar 20 Gorffennaf 2022, rhoddwyd nifer o newidiadau ar waith a oedd yn gofyn am ddiwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol. Cafodd y rheoliadau newydd eu cymeradwyo gan y Senedd wedi hynny a daethant i rym ar 7 Tachwedd 2022. Sicrhawyd aelodau nad oedd y newidiadau hyn wedi effeithio ar CGA wrth gyflawni'r gwaith.

17.4 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad diweddaru.

18. Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru CGA 51/22

18.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn, a roddodd adroddiad cynnydd i aelodau ar gyflwyno'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Gwahoddodd sylwadau neu ymholiadau gan aelodau, yn deillio o'r adroddiad.

18.2 Atgoffodd ef aelodau fod contract tair blynedd CGA ar gyfer ymgymryd â'r gwaith hwn yn dod i ben ar 13 Ionawr 2023. Fel diweddariad i'r papur, cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ymestyn y contract am 12 mis pellach ac y byddai proses dendro yn dilyn hynny.

18.3 Nododd y Cyngor y cynnydd cadarnhaol ac arwyddocaol a wnaed o ran y gwaith hwn.

19-21. Eitemau er gwybodaeth

Derbyniodd yr aelodau bapurau "er gwybodaeth" ar y canlynol:

- **Ystadegau Blynyddol y Gweithlu (CGA 52/22)**
- **Ymatebion CGA i ymgynghoriadau allanol (CGA 53/22)**
- **Ysgrifenyddiaeth i'r IWPRB (CGA 54/22)**

22. Unrhyw fater arall

22.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall a daeth y cyfarfod cyhoeddus i ben.

Symudodd y Cyngor i sesiwn breifat